

Adroddiad Blynyddol Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Y Cyngorydd **Norah Clarke**

Ward: **Notais**

Plaid: Cynghrais Annibynnol

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy mhrif weithgareddau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben **30 Ebrill 2020**. Fe'i darperir er gwybodaeth i bob etholwr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cyngorydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Rôl a Chyfrifoldebau

Fe'm hetholwyd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli **Notais** ar 4 Mai 2017. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau o fewn y Cyngor eleni, gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi 43 o ymholiadau gan etholwyr yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill yr ydych wedi gofyn i mi eu helpu i'w datrys.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelod sydd wedi fy helpu i sicrhau bod fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a'm ward yn cael ei chynnal.

Mae rhagor o wybodaeth am fy rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau i'w gweld drwy ddefnyddio'r ddolen hon.

Gweithgarwch Etholaethol (uchafswm o 200 gair)

Rwyf wedi cydweithio â swyddogion o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chyngor Tref Porthcawl er mwyn gwella rhai palmentydd yn Notais, yn bennaf y tu allan i Ysgol Gynradd West Park

Rwyf wedi mynychu cyfarfodydd PACT a gynhaliwyd cyn effaith y coronafeirws lle y gwnes i gwrdd ag etholwyr a gafodd gyfle i sôn am unrhyw bryderon a allai fod ganddynt.

Mentrau a Gweithgareddau Arbennig (uchafswm o 200 gair)

Helpu i wneud gwelliannau i Faes Pentref Notais – seddi/biniau a choroni coeden fawr sydd wedi'i lleoli ar Faes y Pentref.

Gweithgareddau/Materion Eraill (uchafswm o 100 gair)

Roeddwn yn Faer Porthcawl hyd at 9 Mai 2019 a mynychais sawl digwyddiad yn y Dref lle cefais gyfarfod â chymaint o drigolion sy'n rhoi o'u hamser yn rhad ac am ddim i godi arian ar gyfer elusennau penodol neu i helpu eraill.

Rwy'n wirfoddolwr i'r grwpiau canlynol:-

Cŵn Tywys Cymru – rwy'n gofalu am gŵn tywys bach a hefyd yn rhoi sgysiau i glybiau a grwpiau.

Cadetaid Môr – Ysgrifennydd

Grŵp codi arian a digwyddiadau RNLI Porthcawl – Ysgrifennydd

Cyngor Tref Porthcawl – Cynghorydd

Yn fy amser hamdden, rwy'n mwynhau cerdded, treulio amser gyda fy wyrion, a chanu clychau llaw.

Y Cynghorydd **N Clarke**

Dyddiad: **2 Hydref 2020**